

Biofeddygaeth: Ysgoloriaeth PhD: Effaith iaith ar iechyd y llygad mewn practisiau optegol yng Nghymru (RS656)

- | | |
|---|---|
| A | <ul style="list-style-type: none">• <i>“Children in Welsh schools attending for sight tests. Some linguistic barrier when reading letters on letter chart. Lack of Welsh near vision chart to test reading ability for these children”</i> |
| B | <ul style="list-style-type: none">• <i>“We tend to automatically speak Welsh to first language Welsh speakers in this practice”.</i>• <i>“There has been no need to implement any Welsh in practice”</i>• <i>“I think it is completely pointless. I don't believe there is a single person in Wales who speaks Welsh and not English”</i>• <i>“It's nice for virtue Signalling and as a dying language should not be encouraged. The world speaks English”</i>• <i>“In most places, a waste of time, effort and resources - a mere politically correct sop that mainly benefits politicians with an anti-Westminster axe to grind.”</i> |

Ffigwr 1. Sylwadau gan rai practisiau optegol am A) Profiadau o'r rhwystrau dwyieithog a wynebwyd wrth ddarparu gwasanaeth optegol. B) 'Cynnig gweithredol' y Gymraeg yng ngofal iechyd a Safonau'r Gymraeg (Darparwyd yr holiadur yn 2023).

Dulliau

Bwriadwn archwilio nodiadau clinigol cleifion sydd â chyflyrau hirdymor y llygad, megis glawcoma, dirywiad y maciwlfa sy'n gysylltiedig ag oed a retinopathi diabetig. Byddwn yn nodi'r iaith a ddefnyddiwyd yn eu hymgynghoriadau a chanlyniadau profion a ddefnyddiwyd i wneud diagnosis a monitro cyflwr y llygad (e.e.VF, tonometreg, gonioscopy, asesiad nerf optig). Byddwn yn anelu at gynnwys lleiafswm o 150 claf ym mhob grŵp salwch (50 siaradwr Saesneg sy'n derbyn gofal yn Saesneg (grŵp rheolaeth), 50 siaradwr Cymraeg sy'n derbyn gofal yn Saesneg, 50 siaradwr Cymraeg sy'n derbyn gofal yn Gymraeg).

Yn 2023 darparwyd holiadur i'r cyhoedd i ganfod eu profiadau o ofal optegol yn y Gymraeg, a chafwyd tua 140 o ymatebwyr ond rydym am ddyfnhau'r gwaith. Felly agwedd arall o gasglu data i'r prosiect hwn fydd i weithio gyda'r practisiau optegol i ddarparu'r holiadur i'w cleifion ac i gynnal cyfweiliadau gydag ymatebwyr i ganfod eu profiadau personol o'r Gymraeg mewn gofal optegol a'r effaith arnynt. Bydd yr holiadur a'r cyfweiliadau yn cael eu dadansoddi'n feintiol ac yn ansoddol (dadansoddiad thematig). Byddwn yn sicrhau caniatâd moeseg ar gyfer y prosiect hwn.

Nodau:

I ymchwilio...

- Ydy derbyn gofal yn y Gymraeg/Saesneg yn effeithio ar ddifrifoldeb clefydau'r llygad ar adeg diagnosis?
- Ydy derbyn gofal yn y Gymraeg/Saesneg yn effeithio ar ddilyniant/difrifoldeb clefyd llygaid yn yr hirdymor?
- Canfyddiadau/profiadau cleifion o wasanaethau optegol yn y Gymraeg

Arwyddocâd:

Mae llyfryddiaeth yn bodoli ar hawl y claf at ofal yn eu mamiaith yn ogystal â bod angen gwasanaethau dwyieithog ar bobl fregus ble gall fod diffyg gallu i gyfathrebu yn Saesneg. Ond, ar hyn o bryd, mae diffyg tystiolaeth gadarn o effaith gofal ym mhrif iaith y claf, neu'r diffyg gofal (mewn unrhyw iaith), ar ddangosyddion iechyd ffisiolegol. Nod y prosiect yma yw i ymchwilio i effaith iaith ar iechyd y claf ei hun gyda'r nod o annog cyflwyno arferion a datblygiadau cadarnhaol ble bo galw er mwyn gwella ansawdd gofal. Bwriad hirdymor arall yr ymchwil yw casglu tystiolaeth i gefnogi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfau sy'n cynyddu darpariaeth ddwyieithog mewn gofal iechyd.